

Does neb ond ef...

Cymylau Duw

Fel Cymry, heblaw am fod yn gefnogwyr rygbi brwd, rydym yn hoff o gwyno am y tywydd. Ac fe gafwyd digon o resymau dilys yn ddiweddar i lawer o bobl i gwyno.

Ac, oherwydd lleoliad a thirwedd ein gwlad, rydym yn hen gyfarwydd â chymylau.

Mae'r cwmwl yn ganolog i hanes gweddnewidiad Iesu, ond i'r Hen Destament y trown i gyhwyn.

Cymylau'r Hen Destament

Wedi iddynt eu ryddhau o afael Pharo, bu'r Israeliaid yn crwydro yn yr anialwch. Arhosodd presenoldeb Duw gyda hwy mewn modd gweladwy sef: colofn o dân liw nos, a cholofn o niwl yn ystod y dydd. Pan oedd ofn arnynt, angen bywyd, neu dod o hyd i Dduw – y cyfan roedd angen iddynt wneud oedd edrych tuag at y cwmwl a'r addewid am bresenoldeb parhaol yr Arglwydd.

Pan esgynnodd Moses i ben Mynydd Sinai i dderbyn y Deg Gorchymyn disgynnodd cwmwl dros y mynydd, a'i guddio. Edrychodd y bobl i fyny fry ond ni allent weld Moses, na'r hyn oedd yn digwydd mwyach.

Pan gyfarwyddodd Duw i'r Israeliaid adeiladu Tabernacl cludadwy, mewn ffurf cwmwl llanwodd Duw y babelll â'i Bresenoldeb. Pan adeiladodd Solomon y Deml, cwmwl a lanwodd y cysegr.

Nid syndod yw i ni felly, ddysgu y disgynnodd cwmwl ar ben y mynydd pan oedd Iesu, Pedr, Ioan ac Iago yn bresennol.

Gorchuddiodd presenoldeb Duw hwy, fel gwnaeth ei bresenoldeb Ef i'r credinwyr dro ar ôl tro.

Y dirgel

Dywed ymddangosiad presenoldeb Duw fel cwmwl rhywbeth amdano Ef. Nid gwneud pethau'n gliriach wna cwmwl ond eu tywyllu ac felly cawn ein hatgoffa yma o ddirgelwch Duw. Mae angen gwybodaeth barod arnom

heddiw. Rydym eisiau Google ar flaen ein bysedd yn gyson i ddweud popeth sydd angen ei wybod am bron unrhyw bwnc dan haul, a gall unrhyw Facebook neu Drydar lanw'r bylchau.

ag Ef a sut mae'r stori hon, neu'r ddihareb hon, neu'r hanesyn hwn yn berthnasol i'n bywyd beunyddiol.

A pam ddylem ni aros? Hoffem wybod yn syth, yn awr, plis.

Perthynas nid peiriant

Ond, nid yw perthynas â Duw mor rhwydd â hynny. Nid cyfres o ffeithiau, hawdd eu treulio a hawdd eu hail-drosglwyddo yw swm a sylwedd Duw.

Dirgelwch yw Duw, a gorchuddir ei bresenoldeb o fewn y dirgelwch hwnnw. Nid yw dod i bresenoldeb Duw yn debyg i lawr-lwytho ffeithiau o gyfrifiadur. Yn hytrach, mae'n debyg i fentro i ganol cwmwl dwys, lle cydir popeth. Yn afluniaidd. Di-liw. Dryslyd.

Ond, yno, yng nghanol y cwmwl mae presenoldeb yr un a ddaeth i'n plith, y Duw byw.

Mae angen i ni, ddysgu sut i fod yn amyneddgar, i ymdawelu ac eistedd yn y cwmwl ac annog eraill i wneud yr un peth. Hefyd, teimlo'n gyfforddus heb wybod am rywbeth, ond yn hytrach gwybod Rhywbeth mewn gwirionedd.

Cyfarfyddiad sy'n gweddnewid

Disgynnodd Moses o gymylau'r mynydd a chroen ei wyneb yn disgleirio. Roedd wedi newid. Oherwydd, rhywsut yng ynghanol dirgelwch y cyfarfyddiad gyda Duw yn y "cwmwl" y cawn ein newid.

Newidiwyd Pedr, Iago ac Ioan am byth ar y mynydd hwnnw. Nid am eu bod wedi dysgu ffeithiau di-rif, llawn hwyl. Mae'n eithaf tebyg eu bod wedi disgyn o'r mynydd a mwy o gwestiynau nag atebion a dweud y gwir!

Ond, fel Moses, cyfarfu hwy â'r Duw Byw. Cyfarfod â'r Duw byw sy'n ein newid ni a chwsr ein bywydau. Dyna'n dyhead pennaf, fel Cristnogion, sef bod ym Mhresenoldeb Duw.

*Parch Ian Sims,
Llywydd y Gymdeithasfa yn y De.*



Llun gan Raphael. Gan Alvesgaspar – Own work, CC BY-SA 4.0, <https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=43522641>

...daeth cwmwl a chysgodi drostynt, a chydiodd ofn ynddynt wrth iddynt fynd i mewn i'r cwmwl. Yna daeth llais o'r cwmwl yn dweud, "Hwn yw fy Mab, yr Etholedig; gwrandewch arno."

Luc 9: 34–35

Fel pobl ddynol rydym wedi awchu am wybodaeth erioed, ac wrth i dechnoleg ddatblygu dros y degawdau diwethaf, mae angen am fwy a mwy o wybodaeth arnom. Nid yw'n perthynas ni â Duw, yn wahanol chwaith. Mae angen mwy o wybodaeth arnom amdano. Rydym am wybod sut i uniaethu ein hunain